

Dulliau o greu cwricwlwm: alinio'r cwricwlwm, addysgeg ac asesu

Cynhaliwyd yr arolwg hwn fel rhan o brosiect Camau i'r Dyfodol. Mae'n amlygu pwysigrwydd alinio addysgeg ac asesu â'r dulliau o addysgu a dysgu a awgrymwyd gan fodolau gwahanol ar gyfer dylunio'r cwricwlwm. Mae alinio o gymorth i wireddu cwricwlwm sy'n gyson â'r model cwricwlwm sy'n sail i fframwaith cwricwlwm.

Mae Kelly (2009) yn disgrifio tri prif fodel cynllunio a dylunio cwricwlwm, sef:

- Cwricwlwm fel cynnwys (mae addysg yn trosglwyddo gwybodaeth a diwylliant)
- Cwricwlwm fel cynnyrch (mae addysg yn allweddol)
- Cwricwlwm fel proses (mae addysg yn ddatblygiad)

Yn ymarferol, gallai rhai elfennau o'r modelau hyn gael eu cymysgu. Nid yw hyn yn golygu y dylid eu cymysgu, yn hytrach cydnabyddir y gall fod gwahaniaethau rhwng y cwricwlwm bwriedig a'r cwricwlwm a addysgir. Weithiau mae'r gwahaniaethau hyn yn arwain at arferion addysgu a dysgu nad ydynt mor gyson â'r cwricwlwm bwriedig ag y gallent fod. Nid yw hyn yn ymwneud â safbwyntiau damcaniaethol yn unig: mae'r pethau hyn yn bwysig yn ymarferol gan eu bod yn effeithio ar y math o addysg bydd dysgwyr yn ei derbyn.

Mae'r tablau a ddefnyddir yn yr adran isod i ystyried aliniad yn tynnu ar waith Ellis (2003), Kelly (2009) a Schiro (2013). (Cyfeirir at awduron eraill fel sy'n briodol a rhoddir cyfeiriadau ar gyfer unrhyw ddyfyniadau.)

Adrannau

| | |
|--|---|
| Dulliau o greu cwricwlwm: alinio cwricwlwm, addysgeg ac asesu..... | 1 |
| 1 Cwricwlwm fel cynnwys (mae addysg yn trosglwyddo gwybodaeth a diwylliant)..... | 2 |
| 1.2 Beth mae'r model hwn yn ei awgrymu ar gyfer alinio cwricwlwm, addysgeg ac asesu? 2 | |
| 2 Cwricwlwm fel cynnyrch (mae addysg yn allweddol)..... | 3 |
| 2.1 Beth mae'r model hwn yn ei awgrymu ar gyfer alinio cwricwlwm, addysgeg ac asesu? 3 | |
| 3 Cwricwlwm fel proses (mae addysg yn ddatblygiadol)..... | 4 |
| 3.1 Beth mae'r model hwn yn ei awgrymu ar gyfer alinio cwricwlwm, addysgeg ac asesu? 4 | |
| 4 Syniadau i'w hystyried | 5 |
| 5 Cyfeiriadau | 7 |

1 Cwricwlwm fel cynnwys (mae addysg yn trosglwyddo gwybodaeth a diwylliant)

Mae'r model cwricwlwm hwn yn seiliedig ar bynciau academaidd (gan dynnu ar y disgyblaethau academaidd ehangach). Mae addysg yn cael ei hystyried: i) yn werthfawr yn ei hanfod gan ei bod yn arwain at ddatblygiad deallusol; ac ii) yn bwysig ar gyfer trosglwyddiad diwylliannol (Kelly 2009, t.58). Mae Kelly yn dadlau bod y dull hwn o ddylunio cwricwlwm yn galluogi dysgwyr i gael mynediad at yr hyn a ystyrir yn 'werth chweil yn ei hanfod' yn nhermau gwybodaeth academaidd (t.58).

1.2 Beth mae'r model hwn yn ei awgrymu ar gyfer alinio cwricwlwm, addysgeg ac asesu?

Mae'r dull hwn o ddylunio cwricwlwm yn ystyried 'mai'r man cychwyn yw penderfyniadau yn ymwneud â chynnwys' (Kelly 2009, t.56). Nid yw hyn yn golygu nad yw sgiliau, gwerthoedd, a nodweddion dysgwyr hefyd yn cael eu hystyried: yn syml, mae'n golygu mai'r man cychwyn allweddol ar gyfer dylunio cwricwlwm yw cynnwys y pwnc, yn hytrach nag unrhyw fannau cychwyn eraill (er enghraifft, diddordeb y dysgwyr neu ddeilliannau dysgu).

| Model cynnwys | Dulliau o greu cwricwlwm, addysgeg, ac asesu sy'n alinio |
|-------------------------------------|---|
| Pwyslais y cwricwlwm | <ul style="list-style-type: none"> Mae'n tueddu i 'roi lle canolog i wybodaeth' (h.y. gwybodaeth academaidd) (Ellis 2003) Y man cychwyn ar gyfer datblygu cwricwlwm yw gwybodaeth ddisgyblaethol/bynciol – pa fathau o wybodaeth sy'n ganolog i bynciau /disgyblaethau? Pa ffyrdd o feddwl, rhesymu a deall sy'n angenrheidiol os ydym am ddweud fod dysgwr wedi dysgu? Pa wybodaeth y mae'n werth chweil ei dysgu a pham? |
| Rôl yr athro a dulliau addysgu | <ul style="list-style-type: none"> Cwricwlwm sy'n cael ei gyfeirio gan yr athro (Ellis 2003) Mae athrawon yn cyfryngu gwybodaeth am bwnc /disgyblaeth fel arbenigwyr pwnc Strategaethau addysgu amrywiol, yn aml yn seiliedig ar natur y ddisgyblaeth sy'n cael ei hastudio a strwythur yr wybodaeth yn y ddisgyblaeth honno (Ellis 2003, t.115) |
| Dull dysgu | <ul style="list-style-type: none"> Cynnwys i'w feistroli Mae datblygiad gwybyddol/deallusol yn cael lle blaenllaw Daw'r dysgwr yn fwy gwybodus /ysgolheigaidd dros amser: mae'r dysgu yn dechrau'n syml ac yn dod yn fwy cymhleth Mae cynnydd wrth ddysgu yn ymwneud â pha mor effeithiol mae gwybodaeth yn cael ei hennill Mae gwybodaeth academaidd yn fodd i ddysgwr ddeall y byd yn gyffredinol a'u byd eu hunain yn benodol |
| Amgylchedd ar gyfer addysgu a dysgu | <ul style="list-style-type: none"> Yn canolbwyntio ar bwnc/disgyblaeth (gall gynnwys dulliau trawsgwricwlaidd a rhyngddisgyblaethol hefyd) Mae <u>damcaniaethau dysgu gwybyddol</u> yn alinio'n dda â'r model hwn |
| Dull asesu | <ul style="list-style-type: none"> Pwyslais ar gyrhaeddiad Profion/arholiadau ffurfiol |

2 Cwricwlwm fel cynnyrch (mae addysg yn allweddol)

Mae'r dull hwn o ddylunio cwricwlwm yn canolbwyntio ar y deilliannau dysgu ac mae'n seiliedig yn gyffredinol ar nodau ac amcanion dysgu bwriedig. Amcanion yw 'datganiadau clir sy'n ceisio diffinio'r hyn mae dysgwyr yn ei wybod neu'n gallu ei wneud o ganlyniad i'w haddysg' (Priestley, 2019). Enw arall ar y dull hwn yw model amcanion dylunio cwricwlwm a daeth yn boblogaidd yn yr 1960au (Priestley, 2016). O dan ddylanwad dulliau addysgu a dysgu sy'n seiliedig ar gymwyseddau, bydd amcanion yn aml yn cael eu nodi ar ffurf deilliannau dysgu: deilliannau lefel uwch, eang a generig sy'n osgoi gor-bennu amcanion manwl (Priestley, 2016). Mae'r model hwn wedi dylanwadu ar y dull 'dylunio am yn ôl' wrth gynllunio cwricwlwm.

2.1 Beth mae'r model hwn yn ei awgrymu ar gyfer alinio cwricwlwm, addysgeg ac asesu?

Mae'r model hwn yn defnyddio dull 'nod-diben' wrth gynllunio cwricwlwm, gan ddechrau gydag amcanion neu ddeilliannau a nodir ymlaen llawn (McKernan 2008, t.9). Mae'r broses o ddylunio cwricwlwm yn dechrau gyda'r deilliannau sydd i'w cyflawni: caiff y cynnwys a'r addysgeg eu dewis er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Wrth gyfuno hyn â phwyslais ar gynnwys, y canlyniad yw Dysgu drwy Feistrolaeth: caiff y cynnwys ei dorri i lawr yn amcanion dysgu bwriedig (gweler Kelly 2009, t.84).

| Model cynnyrch | Dulliau o alinio cwricwlwm, addysgeg ac asesu |
|-------------------------------------|---|
| Pwyslais y cwricwlwm | <ul style="list-style-type: none"> Yn canolbwyntio ar 'amcanion terfynol' (Schiro 2013, t5) y cwricwlwm: gweithio 'am yn ôl' o'r rhain i benderfynu beth fydd yn cael ei ddysgu ar lefel pob uned a gwrs. Dilyniannu'r dysgu tuag at yr amcanion terfynol: pa weithgareddau mae angen eu dylunio fel y gall dysgwyr gyflawni'r amcanion? Mae llai o bwyslais ar brosesau dysgu a mwy o bwyslais ar ganlyniad terfynol y cyfarwyddiadau: hynny yw, y nodau sydd i'w cyflawni. |
| Rôl yr athro a dulliau addysgu | <ul style="list-style-type: none"> Yn tueddu i gael ei arwain gan yr athro: yr athro fel hyfforddwr Mae'r athro yn sicrhau bod plant yn gweithio ar dasgau'r cwricwlwm Mae athrawon yn sicrhau'r ffordd fwyaf effeithiol o ddysgu er mwyn cyflawni amcanion |
| Dull dysgu | <ul style="list-style-type: none"> Yn ystyried dysgu fel ffordd o newid ymddygiad: mae cyfarwyddiadau yn siapio neu'n hybu newid ymddygiad Mae dysgu yn llinol: mae profiadau dysgu yn adeiladu yn ddilyniannol i greu effaith gronnu tuag at gyflawni'r nodau dysgu Mae cynnydd wrth ddysgu yn ymwneud ag a gafodd yr amcanion dysgu eu cyflawni ai peidio Daw'r dysgwr yn fwy cymwys wrth i'r amcanion dysgu gael eu cyflawni |
| Amgylchedd ar gyfer addysgu a dysgu | <ul style="list-style-type: none"> Mae'r athro yn rheoli amgylchedd dysgu effeithlon sy'n canolbwyntio ar gyflawni nodau dysgu Mae damcaniaethau dysgu <u>ymddygiadol</u> yn cyd-fynd yn dda â'r model hwn |

| | |
|------------|---|
| Dull asesu | <ul style="list-style-type: none"> • Asesu perfformiad yn erbyn deilliannau dysgu: caiff dealltwriaeth ei dangos drwy berfformiad yn erbyn yr amcanion • Mae asesiad crynodol yn gwerthuso a gafodd amcanion eu cyflawni • 'Mesur'/olrhain cyrhaeddiad |
|------------|---|

3 Cwricwlwm fel proses (mae addysg yn ddatblygiadol)

Mae'r model proses yn ystyried cwricwlwm fel rhywbeth sy'n canolbwyntio ar brosesau dysgu a datblygu. Mae'r ffyrdd o feddwl ynghylch cwricwlwm, dysgu ac addysgu sy'n sail i'r model proses yn 'hollol groes i resymeg nod-diben y model amcanion' (McKernan 2008, t.95). Mae'r model hwn yn ystyried bod dogfennau cwricwlwm yn ddatganiadau o'r egwyddorion a'r prosesau mae addysg yn ceisio eu datblygu, yn hytrach na set o ddeilliannau.

3.1 Beth mae'r model hwn yn ei awgrymu ar gyfer alinio cwricwlwm, addysgeg ac asesu?

Y man cychwyn ar gyfer y model proses yw datblygiad pobl a'r potensial mae addysg yn ceisio ei ddatblygu. Mae'r model hwn hefyd yn rhoi lle blaenllaw i 'gwerth sefyllfaoedd' y cwricwlwm, yn benodol mewn perthynas â pharatoi unigolion 'ar gyfer bywyd gweithgar a chynhyrchiol' mewn cymdeithas ddemocrataidd (Kelly 2009, t.91). Mae'r manau cychwyn a'r gwerthoedd hyn yn llywio penderfyniadau ynglŷn â pha mor werth chweil yw'r hyn fydd yn cael ei ddysgu a pham.

| Model proses | Dulliau o greu cwricwlwm, addysgeg ac asesu sy'n alinio |
|--------------------------------|--|
| Pwyslais y cwricwlwm | <ul style="list-style-type: none"> • Pwyslais ar ddysgu drwy brofiadau: proses o dyfu a datblygu dealltwriaeth yw addysg (Kelly 2009, t.93) • Dull sy'n seiliedig ar astudiaethau integredig yn hytrach na phynciau ar wahân, ond sy'n tynnu ar ddisgyblaethau • Pwyslais ar ddiddordebau dysgwyr ac ar brosesau dysgu a fydd yn cefnogi eu datblygiad cyfannol • Cyrsiâu astudio mwy 'cyfnewidiol' (<i>fluid</i>) gyda phwyslais ar y byd go iawn • Mae nodau dysgu yn cael eu gwireddu fel rhan hanfodol o brosesau addysgol ac nid o ganlyniad iddynt. (McKernan 2008, t.95) |
| Rôl yr athro a dulliau addysgu | <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r athro yn hwyluso; yn creu cyfleoedd i ddysgu • Yn annog grymuso dysgwyr, ymreolaeth, datblygu galluedd yn ymwneud â dewisiadau, penderfyniadau a barn bersonol • Yn creu 'rôl newydd i'r athro' fel 'adnodd yn hytrach nag awdurdod' (Henley et al., yn Stenhouse 1976, t.92) |
| Dull dysgu | <ul style="list-style-type: none"> • Gweithgareddau a phrofiadau <i>gwerth chweil</i> i gefnogi datblygiad dysgwyr • Cydweithio/gweithio ar y cyd/perthnasol/yn cael ei ysgogi gan y dysgwr /diddordebau'r dysgwr • Unedau'r testun, dysgu drwy brosiectau, rhyngddisgyblaethol • 'Mae'n golygu addysgu drwy ddulliau darganfod neu ddulliau ymchwil yn hytrach na thrwy roi cyfarwyddiadau.' (Stenhouse 1976, t.91) |

| | |
|-------------------------------------|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> Mae cynnydd o ran dysgu yn cael ei weld fel rhywbeth parhaus, unigolyddol: mae addysg yn 'broses barhaus a phenagored, sy'n gallu cael ei hasesu'n barhaus ... o ganlyniad i ryngweithio rhwng y dysgwr a'r athro' (Kelly 2009, t.82) |
| Amgylchedd ar gyfer addysgu a dysgu | <ul style="list-style-type: none"> Amgylcheddau 'sy'n llawn posibiladau ... sy'n gwahodd dysgwyr i ymchwilio a datrys problemau mewn ffordd estynedig' (Edwards yn Schiro, t.138) Mae damcaniaethau dysgu <u>lluniadaethol</u> yn alinio'n dda â hyn |
| Dull asesu | <ul style="list-style-type: none"> Ffurfiannol a diffuant Mae'r dysgwr (a'r athro) yn myfyrio ar ddysgu |

4 Syniadau i'w hystyried

Gan fyfrio ar eich dull addysgu a dysgu, pa ddull rydych chi'n ei ddefnyddio ar gyfer pob un o'r agweddau canlynol?

| | |
|--|--|
| Beth yw'r prif elfennau sy'n cael eu pwysleisio yn y cwricwlwm o ran y ffordd rydych chi wedi'i greu i'ch dysgwyr? | |
| Sut byddech chi'n disgrifio eich rôl fel athro a'r dulliau addysgu rydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd? | |
| Pa ddulliau dysgu rydych chi'n eu defnyddio ar hyn o bryd? | |
| Pa amgylchedd addysgu a dysgu rydych chi'n ei greu yn eich ystafell ddosbarth/ystafelloedd dosbarth ar hyn o bryd? | |

| | |
|--|--|
| | |
| Pa ddulliau asesu rydych chi'n eu defnyddio? | |

Beth mae hyn yn ei awgrymu o ran pa fodel cwricwlwm mae eich arferion presennol wedi'u halinio ag ef?

5 Cyfeiriadau

Ellis, A.K. (2003) Exemplars of Curriculum Theory. New York & London: Taylor & Francis Group

Kelly, A.V. (2009) The Curriculum: Theory and Process. New York, London, New Delhi: SAGE publications Inc.

McKernan, J. (2008) Curriculum and Imagination: process, theory, pedagogy and action research. London & New York: Routledge.

Priestley, M. (2016). A perspective on learning outcomes in curriculum and assessment. Republic of Ireland; National Council for Curriculum and Assessment.

Priestley, M. (2019) Curriculum: concepts and approaches. (Cyrchwyd o: <https://mripriestley.wordpress.com/2019/01/04/curriculum-concepts-and-approaches/>)

Schiro, M. (2013) Curriculum Theory. New York, London, New Delhi: SAGE Publications Inc.

Stenhouse, L. (1976) An Introduction to Curriculum Research and Development. London: Heinemann Educational Books Ltd.